**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED**
**LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 7:50 pm ar nos Fawrth, 7fed Gorffennaf 2020 drwy fynychu o bell**

**Minutes of a meeting of the Council held at 7:50 pm on Tuesday, 7th July 2020 by way of remote attendance**

Yn bresennol:
Cadeirydd: y Cynghorydd Phil Tomlins; y Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins a Caryl Vaughan.
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:
Chairman: Councillor Phil Tomlins; Councillors Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins and Caryl Vaughan.
Denfer Morgan (Clerk)

**496 Ymddiheuriadau**
Ymddiheuriodd y Cynghorwyr Lodwick Lloyd a Dennis Morgan a'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**496 Apologies**
Councillors Lodwick Lloyd and Dennis Morgan and County Councillor Dafydd Edwards apologised for their inability to attend the meeting.

**497 Datgelu Buddiant Personol ac Un sy'n Rhagfarnu**
Datgelodd y Cynghorydd Aled Roberts buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod 510a) ac ni chymerodd rhan pellach yn y drafodaeth a'r penderfyniad arno fe.
Roedd y Cynghorydd Lodwick Lloyd wedi datgan buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod 510b) cyn y cyfarfod.

**497 Disclosure of Personal and Prejudicial Interest**
Councillor Aled Roberts disclosed a personal and prejudicial interest in the matter referred to in Minute 510a) and took no further part in the discussion and decision thereon.
Councillor Lodwick Lloyd had disclosed a personal and prejudicial interest in the matter referred to in Minute 510b) prior to the meeting.

**498 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 3ydd Mawrth 2020**
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Mawrth 2020 fel rhai cywir.

**498 Minutes of the Monthly Meeting held on 3rd March 2020**
The Minutes the Meeting of the Council held on 3rd March 2020 were confirmed as being a correct record.

**499 Materion yn codi o'r Cofnodion**

a) Cofnod 475a) – biniau. Adroddodd y Cynghorwyr Sheila Davieslins ar y sefyllfa presennol – fe fydda'r bin presennol yn y man chwarae yn cael ei newid gan un o'r biniau mawr oedd ar gael yn y sied.
b) Cofnod 475b) – Pafin yng Nghylch Peris – roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen ac roedd cyrbin isel yn cael ei osod.
c) Cofnod 484 – dywedodd y Cynghorydd

**499 Matters arising from the Minutes**

a) Minute 475a) – bins. Councillor Sheila Davies and Phil Tomlins reported upon the current position – the current bin at the playground would be replaced by one of the two larger bins in stock in the shed.
b) Minute 475b) – Pavement at Cylch Peris – the work was ongoing with a dropped kerb being installed.
c) Minute 484 – Councillor Lowri Jones

Lowri Jones ei wedi cael y cit ar gyfer codi sbwriel gan y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards.

d) Cofnod 487e) Cytunwyd gofyn am arwydd a phostyn gan y Cyngor Sir ar gyfer llwybr cyhoeddus 33/10 yn Albion Place.

e) Cofnod 487g) Dywedodd y Cynghorydd Aled Roberts y byddai'n gweld os oedd unrhyw grant ar gyfer prosiectau dal ar gael.

stated that she had been provided with the kit for litter picking by County Councillor Dafydd Edwards.

d) Minute 487e) It was agreed to request a sign and post from the County Council for public footpath 33/10 at Albion Place

e) Minute 487g) Councillor Aled Roberts advised that he would ascertain whether the any grants for projects were still available.

**500 Archwiliad o Eiddo**

Dywedodd y Cynghorydd Phil Tomlins ei fod wedi gwneud peth Gwaith ar y cyfarpar chwarae a bod angen rhwyd osod newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Sheila Davies ei bod wedi gwneud archwiliad.

Dywedodd fod y Cynghorydd Lowri Jones wedi rhoi chwynladdwr ar y chwyn ar y cyrtiau tenis. Roedd angen torri canghennau a oedd yn ffinio gyda Hafan yr Efail.

Nodwyd fod y mynedfa i lwybr troed cyhoeddus 33/25 yn Stryd y Capel mewn cyflwr gwael unwaith eto – yn llawn tyllau o hyd.

Cytunwyd defnyddio hysbysfwrdd Stad Craig Ddu ar gyfer arddangos hysbyiadau'r Cyngor.

**500 Property Inspection**

Councillor Phil Tomlins stated that he had undertaken work to the playground equipment and that a replacement cargo net was required.

Councillor Sheila Davies stated that she had undertaken an inspection. She stated that weed-killer had been applied by Councillor Lowri Jones on the weeds on the tennis courts. There was a need to lop branches overhanging Hafan yr Efail.

It was noted that the entrance to public footpath 33/25 at Stryd y Capel was again in a bad condition - still full of pot-holes.

It was agreed to use the Stad Craig Ddu noticeboard for displaying Council notices.

**501 Y Man Eistedd**

Cafodd edrychiad y man eistedd ei ganmol gan yr Aelodau ar ôl iddo gael ei glirio gan Mr Geoffrey Atkinson a chytunwyd talu Mr Atkinson y gost o'r defnyddiau a defnyddiwyd ganddo yn y swm o £37.98.

**501 The Seating Area**

Members complimented the appearance of the seating area after being cleared by Mr Geoffrey Atkinson and it was agreed to reimburse Mr Atkinson the cost of the materials used by him in the sum of £37.98.

**502 Meinciau yn y Gymuned**

Mynegwyd sylwadau ffafriol gan yr Aelodau am y gwaith a wnaed o adfer y meinciau gan y contractwr, Matthew Butler.

**PENDERFYNWYD** gofyn i Mr Butler drwsio mainc metal ar waelod y cae pêldroed nad oedd wedi'i gynnwys ar y restr gwreiddiol.

**502 Benches in the Community**

Members commented favourably about the work carried out by the contractor, Matthew Butler on renovating the benches.

It was also **RESOLVED** to request Mr Butler to repair the metal bench at the bottom of the football field which had not been included on the original list.

**503 Y Chalet**

Mynegodd yr Aelodau bryder am gyflwr y chalet a **PHENDERFYNWYD** codi ffens o'i amgylch a chodi arwydd yn rhybuddio pobl i gadw draw.

O ran codi'r adeilad newydd, dywedodd y Clerc fod y fframwaith dur wedi'i adeiladu. Cytunodd y Cynghorydd Tomlins yrru'r cynllun yn ei flaen mewn ymgynghoriad â Dafydd Edwards, a oedd wedi gwirfoddoli, yn rhinwedd ei gymhwyster proffesiynol, i arolygu'r gwaith o'i godi.

**503 The Chalet**

Members expressed concern about the condition of the chalet and it was **RESOLVED** to fence it off and erect a sign warning people to keep away.

With regard to the construction of the new structure, the Clerk reported that the steel framework had been constructed. Councillor Phil Tomlins agreed to progress the scheme in consultation with Dafydd Edwards, who had volunteered in his professional capacity to supervise construction.

**504 Contract Torri Tyfiant Llwybrau Cyhoeddus 2020**

Nodwyd fod y toriadau yn mynd yn eu blaen mewn modd a oedd yn foddhaol i'r Aelodau. Prun bynnag, gofynwyd i'r Clerc ofyn i'r Contractwr dorri'r tyfiant ar y llwybr troed y tu cefn i Heol Llain Prysg.

**504 Public Footpath Growth Cutting Contract 2020**

It was noted that the cuts were proceeding to the satisfaction of members. However, the Clerk was asked to ask contractor to cut the growth on the footpath at the rear of Heol Llain Prysg.

**505 Maes Chwarae Llanon**

Fe atgoffodd y Clerc yr Aelodau ei fod wedi cysylltu â nhw drwy e-bost mewn perthynas â chais Pwyllgor Neuadd Bentref a Chae Chwarae Llanon i'r Cyngor gwrdd â 50% cost torri porfa yn 2020, yn y swm o £300.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r penderfyniad i gytuno i gais y Pwyllgor a gwneud y taliad cyntaf o £150 i'r contractwr, Mr Matthew Butler.

**PENDERFYNWYD** hefyd tynnu sylw'r Pwyllgor at y tyfiant o greulys yn y cae.

**505 Llanon Playing Field**

The Clerk reminded Members that he had contacted them via e-mail with regard to the request of the Llanon Village Hall and Playing Field Committee that the Council meet 50% of the cost of cutting the grass in 2020 in the sum of £300.

It was **RESOLVED** to confirm the decision to agree to the Committee's request and the making of the first payment of £150 to the contractor, Mr Matthew Butler.

It was also **RESOLVED** to draw to the attention of the Committee the ragwort at the field.

**506 Materion Ariannol – Talu anfonebau**
**PENDERFYNWYD fel a ganlyn:-**

i) cadarnhau talu'r anfonebau canlynol yn dilyn ymgynghori gyda'r Aelodau ar e-bost:-

BHIB - £430.71
Matthew Butler (Benches) - £1,920
R Gwyndaf Jenkins Ltd (Clirio'r Morlan) - £90

**506 Finance Matters – Payment of Invoices**
It was **RESOLVED as follows:-**

i) to confirm the payment of the following invoices following consultation with Members by e-mail:-

BHIB - £430.71
Matthew Butler (Benches) - £1,920
R Gwyndaf Jenkins Ltd (Morlan clearance)

Gwasg y Lolfa (Cylchlythyr) - £250*
Gwasg Lewis&Hughes (Llythyr Covid-19) - £60*

* I'w had-dalu i'r Clerc.

ii) cytuno taliad o £70 i Elfyn Jones am wneud Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2019-20.

- £90
Lolfa Press (Newsletter) - £250*
Lewis&Hughes Press (Covid-19 Letter) - £60*
* To be reimbursed to the Clerk.

ii) to approve the payment of £70 to Elfyn Jones in respect of the Internal Audit of the 2019-20 Accounts.

**507 Cynllun Lwfansau Aelodau 2020-21**
Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2020 a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun isod ar gyfer 2020-21:-

*Lwfans a gynhwyshir yn y Cynllun*
Penderfyniad 42 – Taliad tuag at gostau a threuliau
Penderfyniad 45 – Taliad costau teithio
Penderfyniad 48 – Lwfans costau gofal

*Lwfansau na chynhwyshir yn y Cynllun*
Penderfyniad 44 – Taliad cyfrifoldebau penodedig
Penderfyniad 46 – Taliad costau cynhaliaeth
Penderfyniad 47 – Lwfans colled ariannol
Penderfyniad 49 – Taliad Pennaeth Dinesig
Penderfyniad 50 – Taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig.

**507 Members Allowances Scheme 2020-21**
Consideration was given to the recommendations of the Independent Remuneration Panel for Wales dated February 2020 and it was **RESOLVED** to adopt the following Scheme for 2020-21:

*Allowances Included in the Scheme*
Determination 42 – Payment towards costs and expenses
Determination 45 – Travel costs
Determination 48 – Care costs allowance

*Allowances Not Included in the Scheme*
Determinations 44 – Specific responsibilities payment
Determination 46 – Subsistence payment
Determination 47 – Financial loss allowance
Determination 49 – Mayor's payment
Determination 50 – Deputy Mayor's payment.

**508 Cyfrifon Blynyddol 2019-21**
Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2019-20 fel a gyflwynwyd gan y Clerc ac a archwiliwyd gan yr Archwilydd Mewnol, Mr Elfyn Jones.
**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol fel y'u cyflwynwyd a'u hanfon nhw i Grant Thornton, Archwilwyr Allanol y Cyngor.

**508 2019-20 Annual Accounts**
Consideration was given to the Annual Accounts for 2019-20 as presented by the Clerk and audited by the Internal Auditor, Mr Elfyn Jones.
It was **RESOLVED** to approve the Annual Accounts as presented and forward them to Grant Thornton, the Council's External Auditors.

**509 Yswiriannau'r Cyngor**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau adnewyddu Yswiriannau'r Cyngor gyda BHIB Ltd. a'r taliad o'r premiwm o

**509 Council's Insurances**
It was **RESOLVED** to confirm the renewal of the Council's Insurances with BHIB Ltd. and the payment of the premium of

£430.71 (yn dilyn ymgynghori gydag Aelodau drwy e-bost).

**510 Materion Cynllunio**

a) A190018 – Tir y tu cefn i Cylch Peris, Llanon. Datblygiad tai annedd o 34 uned (yn cynnwys 10 uned tai fforddiadwy)
Nodi fod y cais cynllunio wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Sir.

O ran y cais y datblygwyr i'r Cyngor i gynnig enwau ar gyfer y tri stryd, cytunwyd bod y Cynghorydd Phil Tomlins yn gofyn am enwau posib gan drigolion y pentref ar dudalen Gwybodaeth Gymunedol Facebook ar gyfer eu hanfon 'mlaen i'r datblygwyr.

b) A200438, Rhosfach, Nebo. Codi estyniad.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.

**511 Materion Covid-19**

a) **Cynllun Cefnogi'r Gymuned**
Dywedodd y Cynghorydd Sheila Davies fod y grŵp o wirfoddolwyr yn darparu cymorth o hyd. Dywedodd y Cynghorydd Lowri Jones fod y cynllun wedi gweithio'n dda a'I fod e' wedi cael ei ganmol. Nodwyd hefyd y Cyngor Sir yn mynd i ddefnyddio'r cynllun fel esiampl o ymarfer da ar ei wefan.

b) **Agor y cyrtiau tenis / AchADd a'r man chwarae**
Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyngor presennol o ran agor y cyrtiau tenis / aml-ddefnydd a'r man chwarae.

O ran y man chwarae, nodwyd nad oedd rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn caniatau iddyn' nhw gael eu hagor ar hyn o bryd.

O ran y cyrtiau tenis / aml-ddefnydd, cyfeiriodd y Clerc at ei ddehongliad ef o'r rheoliadau a chanllawiau cyfredol ac ei fod yn argymell peidio agor y cyrtiau

£430.71 (following consultation with Members by way of e-mail).

**510 Planning Matters**

a) A190018 - Land to the rear of Cylch Peris, Llanon. Residential development of 34 units (including 10 affordable housing units)
To note that the application had been approved by the County Council.

With regard to the request of the developers for the Council to suggest names for the three streets, it was agreed that Councillor Phil Tomlins seek suggested names from the inhabitants of the village on the Community Information Facebook page for forwarding to the developers.

b) A200438, Rhosfach, Nebo. Erection of an extension.
**Decision**: No objection.

**511 Covid-19 Matters**

a) **Community Support Scheme**
Councillor Sheila Davies stated that the volunteer group was still providing support. Councillor Lowri Jones stated that the scheme had worked well and that compliments had been received. It was also noted that the County Council was going to use the scheme as an example of good practice on its website.

b) **Opening of the tennis courts / MUGA and playground**
Consideration was given to the current advice with regard to opening the tennis / MUGA courts and the playground.

With regard to the playground, it was noted that Welsh Government regulations and guidelines did not allow them to be opened at present.

With regard to the tennis / MUGA courts, the Clerk advised of his interpretation of current regulations and guidelines and that he was recommending that the

tra bod y rhain wedi newid, os na ellid mynnu bod pellter cymdeithasol yn cael ei sicrhau drwy oruchwyliaeth. Aed yn ei flaen i gael trafodaeth ar y mater ac, yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** agor y cyrtiau o'r Sadwrn ganlynol ymlaen, 11eg Gorffennaf, am gyfnod arbrofol o wythnos er mwyn monitro'r defnydd ohono. Cytunodd y Cynghorydd Phil Tomlins godi arwydd yn cynghori defnyddwyr o reoliadau a chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru.

**512 Cylchlythyr Cloncan Llanon**

Adroddodd y Cynghorwyr Sheila Davies a Gwenno Piette y canlynol:

a) cais i gyllido'r rhifyn cyfredol. Dywedodd y Clerc fod yna falans digonol yn yr arian a glustodwyd at y pwrpas hwn yn y gyllideb.
b) Cais i gyllido'r cylchlythyr yn y dyfodol, a fyddai'n cael ei ddosbarthu drwy'r Gymuned i gyd, gan gynnwys ardal Nebo.

Trafodwyd y ddau gais gan yr Aelodau a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:-

i) cytuno cwrdd â chost argraffu'r rhifyn cyfredol gan ddefnyddio'r arian oedd ar gael yn y gyllideb;
ii) gofyn i'r Cynghorwyr Davies a Piette, er nad oes yna ddeunydd yn ymwneud ag ardal Nebo yn y rhifyn hwn, drefnu iddo gael ei ddosbarthu yn yr ardal honno, gyda nodyn yn dweud bod trefniadau mewn llaw i gynnwys newyddion o'r ardal honno yn rhifynnau'r dyfodol;
iii) o ran argraffu rhifynnau'r dyfodol, cytuno cwrdd a chost y ddau rhifyn arall I'w hargraffu yn ystod y flwyddyn ariannol hon a bod y mater yn cael ei adolygu ar adeg paratoi cyllideb 2021-22; a
iv) holi busnesau a fyddai diddordeb ganddyn' nhw noddi cost cylchlythyr cyfan.

courts not be opened until these had been changed, unless safe distancing could be enforced by way of supervision. There followed a discussion on the matter and, following a vote, it was **RESOLVED** to open up the courts from the following Saturday, 11th July, for a trial period of one week in order to monitor its usage. Councillor Phil Tomlins agreed to arrange for a sign to be erected advising users of current Welsh Government regulations and guidance.

**512 Llanon Chat Newsletter**

Councillors Sheila Davies and Gwenno Piette reported the following:

a) a request to fund the printing of the current edition. The Clerk advised that there was sufficient balance of monies earmarked for this purpose in the budget.
b) a request to finance the newsletter in future, which would be circulated throughout the whole Community, including the Nebo area.

Members discussed the two requests and it was **RESOLVED** as follows:-

i) to agreecyte to meet the cost of printing the current edition using the money available in the budget;
ii) to request Councilors Davies and Piette, despite there not being any material from the Nebo area in this edition, to arrange for it to be distributed in this area, with a note that arrangements would be put in hand to include news from that area in future editions;
iii) with regard to the printing of future editions, to agree to meet the cost of the two further editions to be printed during this financial year and that the matter be reviewed at the time of preparing the the 2021-22 budget; and
iv) to explore whether there would be interest from businesses to sponsor the cost of a whole

newsletter.

**513 Cais i Ddarparu Rhandir**
Rhoddwyd ystyriaeth i gais i'r Cyngor ddarparu rhandir yn Llanon / Llansantffraed naill ai ar ei dir ei hun neu drwy hwyluso'r defnydd o dir arall. Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd nad oedd tir addas ym mherchnogaeth y Cyngor a chynigiwyd darnau o dir arall yn y Gymuned y gellid gofyn i'r perchnogion ystyried ei ddefnyddio at y pwrpas hwn.

**PENDERFYNWYD** fynd at berchnogion tir yn y ddwy bentref, gan gynnwys llain ger y môr, tir y tu ôl i Gapel Seilo a thir y tu cefn i'r Ysgol Gynradd.

**513 Request to provide an Allotment**
Consideration was given to a request that the Council provide an allotment in Llanon / Llansantffraed either on its own land or by facilitating the use of other land. During the discussion, it was agreed that the Council did not own suitable land and that owners of other parcels of land in the Community be approached for this purpose.

It was **RESOLVED** to approach landowners in both villages, including a slang near the coast, land behind Seilo Chapel and land behind the Primary School.

**514 Arwydd Stryd y Capel**
Rhoddwyd ystyriaeth i'r awgrym ar gyfer codi arwydd ar ochr ddeheuol y fynedfa i Stryd y Capel, nad oedd wedi cael ei godi hyd yn hyn. Dywedwyd fod yna amheuaeth am berchnogaeth yr eiddo roedd y wal a awgrymwyd yn ran ohono. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** trafod y mater gyda'r Cyngor Sir.

**514 Stryd y Capel Sign**
Consideration was given to a suggestion for erecting a sign on a wall on the southern side of the entrance to Stryd y Capel, which had not been erected to date. It was stated that the ownership of the property of which the suggested wall formed a part was in doubt.
Following discussion, it was **RESOLVED** to discuss the matter with the County Council.

**515 Unrhyw fater cymwys arall**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y canlynol'

a) Cyhoeddi'r cofnodion – cytunwyd gofyn i'r Clerc drefnu i'r cofnodion gael eu dosbarthu i'r Aelodau a'u gosod ar yr hysbysfyrddau cyn gynted a phosib yn dilyn cyfarfodydd.
b) Petai rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran caniatau cynnal cyfarfodydd mewn adeiladau cyn y cyfarfod nesaf ar 4ydd Awst, gofyn i Gapel Seilo os oedd modd defnyddio'r festri at y pwrpas hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:40pm

**515 Any Other Competent Business**

The Chairman referred to the following.

a) Publishing of minutes – it was agreed to request the Clerk to arrange for the draft minutes to be circulated to Members and placed on the noticeboards as soon as possible after meetings.
b) Should Welsh Government regulations and guidance be changed prior to the date of the next meeting, 4th August, to allow meetings to take place within premises, to request Capel Seilo whether the vestry could be used for this purpose.

The meeting concluded at 9:40pm